

Trefn Angladdau Cristnogol

*THE CHURCH IN WALES  
YR EGLWYS YNG NGHYMRU*



# Y Gwasanaeth yr Angladd

---

## Yn y Cymun Bendigaid

Y Brawddeg(au)

Y Gyflwyniad

Y Paratoad/Y Bobl yn Dod Ynghyd

Y Gweddïau [Gan hepgor y Litani Leiaf a Gweddi'r Arglwydd]

Gweinidogaeth y Sacrament

Brawddeg Ôl-Gymun a Gweddi

Y Cyflwyniant

Y Diweddglo

## Pan Na Weinyddir y Cymun

Y Brawddeg(au)

Y Gyflwyniad

Y Salm

Y Darlenniad(au)

Y Gweddïau

Y Cyflwyniant

Y Diweddglo

***Gellir ychwanegu Emynau a Chaneuon lle bo'n addas a gellir canu'r salmau.***

***Yn fydryddol yn ymatebol neu fersiyniau siantedig eraill.***

# Trefn Angladdau Cristnogol

## 1 DERBYN Y CORFF I'R EGLWYS

---

*Adeg y claddu, neu cyn hynny*

*Gan gyfarfod â'r corff wrth y fynedfa i'r fynwent, neu wrth borth yr eglwys, â'r Gweinidog o'i flaen, tra dywedir neu cenir un neu fwy o'r brawddegau neu'r salmau hyn.*

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

**(Ioan 11: 25-26)**

Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear: yr hwn a gaf fi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall.

**(Job 19: 25-27)**

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyh fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

**(Ioan 14: 1-3)**

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

**(Rhufeiniaid 14: 8-9)**

Ni ddaethom â dim i'r byd, a hynny am yr un rheswm na allwn fynd â dim allan ohono chwaith. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith.

Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.

**(1 Timotheus 6: 7, Job 1: 21)**

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.

**(1 Pedr 1: 3)**

Duw'r oesoedd yw dy noddfa, ac oddi tanodd y mae'r breichiau tragwyddol.

**(Deuteronomium 33: 27)**

Nid oes terfyn ar drugaredd yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.

**(Galarnad 3: 22-23)**

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.

**(Mathew 5:4)**

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. **(Ioan 3- 16)**

Dyweddod Iesu: Bydd pob un y mae'r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi. Oherwydd ewyllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy'n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol.

**(Ioan 6: 37- 40)**

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angyllion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

**(Rhufeiniaid 8: 38-39)**

Pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i feddwl dyn, y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu.

**(1 Corinthiaid 2: 9)**

Os ydym yn credu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd bydd Duw, gydag ef, yn dod â'r rhai a hunodd drwy Iesu. Calonogwch eich gilydd, felly â'r geiriau hyn.

**(1 Thessaloniaid 4: 14-18)**

**SALM 27: 1, 4-6, 11-12, 14**

**Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm gwardigaeth, rhag pwy yr ofnaf?\***

**Yr Arglwydd yw cadernid fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?**

**Un peth a ofynnais gan yr Arglwydd, dyma'r wyf yn ei geisio:\***

**cael byw yn nhŷr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd;**

**i edrych ar hawddgarwch yr Arglwydd\***

**ac i ymofyn yn ei deml.**

**Oherwydd fe'm ceidw yn ei gysgod yn nydd adfyd, a'm cuddio i mewn yn ei babell, a'm codi ar graig.**

**Ac yn awr, fe gyfyd fy mhen gorwch fy ngelynyon o'm hamgylch; ac offrymaf finnau yn ei deml aberthau llawn gorfoledd; canaf, canmolaf yr Arglwydd.**

**Disgwyl wrth yr Arglwydd, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr Arglwydd.**

**SALM 130**

**O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O Arglwydd.**

**Arglwydd, clyw fy llef;**

**bydded dy glustiau'n agored**

**i lef fy ngweddi.**

**Os wyt ti, Arglwydd, yn sylwi ar bechodau,**

**pwy, O Arglwydd, a all sefyll?**

**Ond y mae gyda thi faddeuant,**

**fel y cei dy ofni.**

**Disgwyliaf wrth yr Arglwydd; y mae fy enaid yn disgwyl,  
a gobeithiaf yn ei air;  
y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd  
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore,  
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.**

**O Israel, gobeithia yn yr Arglwydd,  
oherwydd gyda'r Arglwydd y mae ffyddlondeb,  
a chydag ef y mae gwardigaeth helaeth.  
Ef sydd yn gwaredu Israel  
oddi wrth ei holl bechodau.**

*Onis defnyddiwyd yn yr Orymdaith, gellir defnyddio un o'r salmau hyn o flaen y Llith, pan ddygir y corff i'r eglwys y noson cyn y claddu, neu yn lle'r salmau yn Y Gwasanaeth yn yr Eglwys pan na weinyddir y Cymun Bendigaid.*

## **2 DARLLENIADAU A GWEDDIAU AR NOSWYL YR ANGLADD**

---

*Pan ddygir y corff i'r eglwys ar noswyl yr angladd, darllenir un o'r llithoedd a geir yn adran 5.*

*Dywed y Gweinidog:*

Yr Arglwydd fa fo gyda chwi;  
**Achyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

Arglwydd, trugarha wrthym.  
**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad,  
yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw,  
deled dy deyrnas,  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef,  
felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw  
ein bara beunyddiol  
a maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau  
i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.**

*Gweddïau o adran 6, yn cynnwys un o'r canlynol:*

Dad pawb oll, gweddiwn arnat dros y rhai a garwn, er eu bod o'n golwg ni. Dyro iddynt dy dangnefedd; llewyrched bythol oleuni arnynt; ac yn dy ddoethineb grasol a'th allu anfeidrol cyflawna ynddynt fwriad daionus dy ewyllys perffaith; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw byw, a orffwysaist mewn beddrod a thrwy hynny a sancteiddiaist y bedd i fod yn wely gobaith i'th bobl; gwna i ni ddwys ofidio am ein pechodau a fu'n achos dy ddiodefaint, fel, pan orwedd ein cyrff yn y llwch, y gall ein heneidiau fyw gyda thi sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Caniatâ, O Arglwydd, megis y'n bedyddir ni i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, fod inni felly, trwy farwhau'n wastad ein serchiadau llygredig, gael ein claddu gydag ef; a thrwy'r bedd a phorth angau fynd ymlaen i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannu ef a fu farw, ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dduw gras a gogoniant, cofiwn **E. ein brawd/chwaer** ger dy fron. Dyro inni ffydd i weld mai porth y bywyd tragwyddol yw angau, fel y gallwn barhau ein hymdaith ar y ddaear yn llawn hyder tawel hyd nes inni gael ein hailuno â'r rhai a fu farw yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dduw Hollalluog, Arglwydd bywyd a gorchfygwr angau; diolchwn iti am y gobaith am fywyd tragwyddol, a roddwyd i ni trwy atgyfodiad Iesu Grist ein Harglwydd. Gweddiwn am i bawb sy'n galaru ar ôl eu hanwyliaid gael profi ei dangnefedd ef a rhannu yn ei fuddugoliaeth; er mwyn ei enw. **Amen.** (*Cydbwyllgor Litwrgaidd*)

Dad nefol, molwn d'enw di am bawb a aeth o'r bywyd hwn â'u cariad a'u hymddiriedaeth ynot, am esiampl eu bywydau, am y bywyd a'r gras a roddaist iddynt ac am y tangnefedd y gorffwysant ynddo. Heddiw, molwn di am dy **was/wasanaethferch E.** ac am y cyfan a gyflawnaist **drwyddo/drwyddi.** Tyrd atom yn ein tristwch a llanw ein calonnau â mawl a diolchgarwch, er mwyn ein Harglwydd Atgyfodedig, Iesu Grist. **Amen.**

*Un o'r diweddglolygon canlynol:*

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**

Bydded i gariad Duw ein bendithio a'n cysuro, a sychu pob deigrin o'n llygaid: a bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân, fod gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

*(Addaswyd o weddi'r Eglwys Gatholig Rufeinig)*

Bydded i Dduw roi i'r byw, ras; i'r ymadawedig, orffwys; ac i ni ac i'w holl wasanaethyddion, fywyd tragwyddol; [a disgyrned bendith Duw hollalluog, y Tad,

y Mab a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.] **Amen.**  
*Gellir hefyd ddefnyddio'r ddwy adran flaenorol o'r Drefn hon, neu unrhyw ran ohonynt mewn gwasanaeth yn y tfl, lle mae'n arfer lleol.*

### **3 Y GWASANAETH YN YR EGLWYS** *Os gweinyddir y Cymun bendigaid*

---

*Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud ty canlynol neu gyflwyniad addas arall*

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein **brawd/chwaer E.** i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau mae gan Gristnogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth. Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

*Dechreuir yn awr drefn y Cymun Bendigaid.*

#### **Y COLECT**

*Defnyddir un o'r Colectau canlynol:*

*Ar gyfer Oedolyn:*

O Dduw, gwneuthurwr (creawdwr) ac iachawdwr pawb, dyro i'th Eglwys gyfan, y byw a'r meirw, ddoniau llesol/cadarn ddoniau Dioddefaint iachusol sy Fab, fel y treiddiwn drwy angau at atgyfodiad llawen, trwy'r Hwn a fu farw ac a gyfododd drosom. **Amen.**

O Dduw, gwneuthurwr a gwaredwr pob credadun; dyro i'th **was/forwyn E.** a'r holl fyddloniaid ymadawedig olud anchwiliadwy dioddefaint dy Fab; fel, ar ddydd ei ymddangosiad ef, y cânt eu hamlygu fel dy blant di, trwy'r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd ni, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

O Dduw, a roddaist dy annwyl Fab i farwolaeth y groes er ein hiachawdwriaeth, a'n gwaredu oddi wrth allu'r gelyn trwy ei atgyfodiad gogoneddus: dyro inni fawr beunydd i bechod, fel y byddwn byw byth gydag ef yn llawenydd ei atgyfodiad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Ar gyfer plentyn:*

O Dduw, cynorthwya ni i ymddiried **E.** i'th ofal a'th gariad di, a thywys ni i gyd i'th deyrnas nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

*Darlleniad o'r Hen Destament neu'r Testament Newydd o'r rhestr yn Adran 5.*

*Dywed y darllenydd:*

Darlleniad o .....

*Ceir distawrwydd ar ôl y darlleniad.*

*Wedyn gall y darllenydd ddweud:*

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch fo i Dduw.**

## **Y SALM**

*Defnyddir un o'r salmau neu anthemau canlynol:*

### **SALM 116: 3-8**

Yr oedd clymau angau wedi tynhau amdanaf,  
a gefynnau Sheol wedi fy nal,  
a minnau'n dioddef adfyd ac ing.  
Yna gelwais ar enw'r Arglwydd:  
'Yr wyf yn erfyn, Arglwydd, gwared fi.'  
Graslon yw'r Arglwydd, a chyfiawn,  
ac y mae ein Duw ni'n tosturio.  
Ceidw'r Arglwydd y rhai syml;  
pan ddarostyngwyd fi, fe'm gwaredodd.  
Gorffwysa unwaith eto, fy enaid,  
oherwydd bu'r Arglwydd yn hael wrthyt;  
oherwydd gwaredodd fy enaid rhag angau,  
fy llygaid rhag dagrau,  
fy nhraed rhag baglu.

### **ANTHEMAU'R PASG 3-8**

Nid yw Crist, wedi ei gyfodi wrth y meirw, yn marw mwyach  
nid yw marwolaeth yn arglwyddiaethu arno mwyach.  
Canys fel y bu farw unwaith i bechod:  
ac fel y mae'n byw, byw y mae i Dduw.  
Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn farw i bechod  
eithr yn fyw i Dduw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.  
Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw:  
ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunodd.  
Canys gan fod marwolaeth trwy ddyn:  
trwy ddyn hefyd y mae atgyfodiad y meirw.  
Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn marw:  
felly hefyd yng Nghrist y bywheir pawb.  
**YR EFENGYL**



*Efengyl o Adran 5.*

*Dywed y darllenydd:*

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant .....

**Gogoniant i Grist ein Gwardwr.**

*Ar ôl yr Efengyl dywed y darllenydd:*

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

**Moliant i Grist ein Harglwydd.**

## **AR ÔL Y CYMUN**

*Ar ôl y Cymun, dyweder:*

Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofna ef;

**Fe gofia ei gyfamod yn dragywydd.**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a roddaist i ni dy Fab Iesu Grist yn fara'r bywyd tragwyddol: pâr i ni oll sy'n gyfrannog o'i Gorff a'i Waed gael ein cyfodi y dydd diwethaf ynddo ef, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

*Parheir y Gwasanaeth yn yr Eglwys gyda'r Cyflwyniant a'r Diweddsglo.*

## 4 Y GWASANAETH YN YR EGLWYS *pan na weinyddir y Cymun Bendigaid*

---

*Gellir defnyddio'r gwasanaeth hwn wrth y bedd neu yng nghapel yr amlogfa neu'r gladdfa.*

*Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud y canlynol neu gyflwyniad addas arall*

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein **brawd/chwaer E.** i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau mae gan Gristionogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth. Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

*Dyweder neu caner un neu fwy o'r salmau canlynol. Gellir dweud neu ganu yr antiffon hwn o flaen ac ar ôl unrhyw salm neu nifer o salmau.*

**Iachawdwr y byd a'n prynodd trwy dy groes a'th werthfawr waed: achub a chymorth ni, O Arglwydd.**

### SALM 23

**Y Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.**

**Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio.**

**Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.**

**Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.**

**Yr wyt yn arlwyyo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynyon;**

**yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.**

**Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd,**

**a byddaf yn byw yn nhŷr Arglwydd weddill fy nyddiau.**

### SALM 90: 1-6, 10, 12-17

**Arglwydd, buost yn gadernid i ni ymhob cenhedlaeth.**

**Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.**

**Yr wyt yn troi dyn yn ôl i'r llwch, a dweud, 'Trowch yn ôl, feibion dynion.'**

**Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwraeth yn y nos.**

**Yr wyt yn eu sgubo ymaith fel breuddwyd; y maent fel gwellt yn adfywio yn y bore - yn tyfu ac yn adfywio yn y bore, ond yn erbyn yr hwyr yn gwywo ac yn crino.**

**Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain trwy gryfder, ond y mae eu hyd yn faich a blinder;**

**ânt heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith.**

**Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth.**

**Dychwel, O Arglwydd. Am ba hyd?**

**Trugarha wrth dy weision.**

**Digona ni yn y bore â'th gariad, inni gael gorfoleddu a llawenhau ein holl ddyddiau.**

**Rhoi inni lawenydd gynifer o ddyddiau ag y blinaist ni, gynifer o flynyddoedd ag y gwelsom ddrygyfyd.**

**Bydded dy weithredoedd yn amlwg i'th weision, a'th ogoniant i'w plant.**

**Bydded trugaredd yr Arglwydd ein Duw arnom; llwydda waith ein dwylo inni, llwydda waith ein dwylo.**

### **SALM 103: 1-4, 13-18**

**Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a'r cyfan sydd ynof ei enw sanctaidd.**

**Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a phaid ag anghofio'i holl ddoniau:**

**ef sy'n maddau fy holl droseddau, yn iacháu fy holl afiechyd;**

**ef sy'n gwaredu fy mywyd o'r pwll, ac yn fy nghoroni â chariad a thru-garedd.**

**Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant, felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.**

**Oherwydd y mae ef yn gwybod ein deunydd, yn cofio mai llwch ydym.**

**Y mae dyddiau dyn fel glaswelltyn;**

**y mae'n blodeuo fel blodeuyn y maes - pan â'r gwynt drosto fe diflanna, ac nid yw ei le'n ei adnabod mwyach.**

**Ond y mae ffyddlondeb yr Arglwydd o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni, a'i gyfiawnder i blant eu plant, i'r rhai sy'n cadw ei gyfamod, yn cofio'i orchmynion ac yn ufuddhau.**

### **SALM 121**

**Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd;**

**o ble y daw cymorth i mi?**

**Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.**

**Nid yw'n gadael i'th droed lithro, ac nid yw dy geidwad yn cysgu.**

**Nid yw ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno.**

**Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw; ni fydd yr haul yn dy daro yn y dydd, na'r lleuad yn y nos.**

**Bydd yr Arglwydd yn dy gadw rhag pob drwg, bydd yn cadw dy einioes.**

**Bydd yr Arglwydd yn gwyllo dy fynd a'th ddod yn awr a hyd byth.**

### **SALM 139: 1-11**

**Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod.**

**Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi;**

**yr wyt wedi deall fy meddwl o bell;**

**yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm**

**holl ffyrdd.**

**Oherwydd nid oes air ar fy nhafod heb i ti, Arglwydd, ei wybod i gyd.**

**Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen, ac wedi gosod dy law drosof.**

**Y mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd i mi;**

**y mae'n rhy uchel i mi ei chyrraedd.**

**I ble yr af oddi wrth dy ysbryd?**

**I ble y ffoaf o'th bresenoldeb?**

**Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno;**

**os cyweiriau wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd.**

**Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr, yno hefyd fe**

**fydd dy law yn fy arwain, a'th ddeheulaw yn fy nghynnal.**

**Os dywedaf, 'Yn sicr bydd y tywyllwch yn fy nghuddio, a'r nos yn cau**

**amdanaf', eto nid yw tywyllwch yn dywyllwch i ti;**

**y mae'r nos yn goleuo fel dydd, a'r un yw tywyllwch a golueni.**

## **5 DARLLENIAD NEU DDARLLENIADAU O'R BEIBL**

---

*Gwelir adran 20 ar gyfer y darlleniadau cyflawn .*

*Dywed y darllenydd:*

Darlleniad o .....

*Ceir distawrwydd ar ôl y darlleniad.*

*Gall y darllenydd ddweud:*

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch fo i Dduw.**

*Mae'r darlleniadau canlynol a nodir â seren yn addas ar gyfer Angladd Plentyn*

*Pregethwr 3: 1-8; Tymor i bob peth*

*Eseia 25: 6-9, 26: 3, 4; Llyncir angau am byth*

*\*Eseia 61: 1-3; Newyddion da i'r toredig o galon*

*Galarnad 3: 22-26, 31-33; Nid oes terfyn ar drugaredd yr Arglwydd*

*Doethineb Solomon 3: 1-9; Ni chyffwrdd cystudd â hwynt*

*\*Mathew 5: 1-12a; Y Gwynfydau*

*\*Mathew 11: 25-30; Rhoddaf orffwstra i chwi*

*\*Mathew 18: 1-5, 10; Y mwyaf yn Nheyrnas Nefoedd*

\*Marc 10: 13-16; *Gadewch i'r plant ddod afaf i*

Marc 15: 33-39, 16: 1-7; *Marwolaeth ac atgyfodiad Crist*

Luc 24: 13-16, (17-27), 28-35; *Y ffordd i Emaus*

Ioan 5: 24-29 and 6: 37-40; *Gweld y Mab ac a chredu ynddo*

Ioan 6: 53-58; *Caiff yr hwn sy'n bwyta'r bara hwn fyw am byth*

\*Ioan 10: 11-16; *Myfi yw'r bugail da*

Ioan 11: 21-27; *Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd*

Ioan 14: 1-6, 18, 19; *Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd*

Ioan 20: 1-9, (10-18); *Y Crist Atgyfodedig*

Rhufeiniaid 8: 31-39; *Ni all dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist*

Rhufeiniaid 14: 7-9, (10-13, 16, 17); *Arglwydd y Meirw a'r Byw*

1 Corintiaid 15: 3-20; *Tyst o'r Crist Atgyfodedig*

1 Corintiaid 15: 20-26, 35-38, (39-41), 42-58; *Angau, lle mae dy fuddugoliaeth?*

2 Corintiaid 4: 16 - 5: 9; *Gogoniant digyffelyb*

Philippiaid 3: 7-11, (12-21); *Grym atgyfodiad Crist (Dinasyddion y Nef)*

2 Timotheus 2: 8-13; *Cawn fyw gyda Crist*

\*1 Pedr 1: 3-9; *Gobaith bywiol*

\*1 Ioan 3: 1,2; *Plant Duw*

\*1 Ioan 4: 7-18a; *Cariad yw Duw*

Datguddiad 7: 9-17; *Bydd Duw yn sychu pob deigrun*

Datguddiad 20: 11-13; *Llyfr bywyd*

\*Datguddiad 21: 1-7; *Y Jerwsalem newydd*

## 6 Y GWEDDIAU

---

*Dywed y Gweinidog:*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;

**A chyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

*PENLINIO/EISTEDD*

\* Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwarded ni rhag drwg.  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.**

*\* Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddï'r Arglwydd naill ai yn y fan hon, neu yn y lle a nodir wedi'r Traddodiant.*

Ti, Grist, yw Brenin y gogoniant;

**Ti yw tragwyddol Fab y Tad.**

Pan orchfygaist holl nerth angau;

**Agoraist deyrnas nef i bawb sy'n credu.**

Ti sydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw yng ngogoniant y Tad;

**Yr ym yn credu mai tydi a ddaw yn Farnwr arnom.**

Gan hynny yr atolygwn i ti gynorthwyo dy weision;

**Y rhai a brynaist â'th werthfawr waed.**

Pâr iddynt gael eu cyfrif gyda'th saint;

**Yn y gogoniant tragwyddol.**

*Gellir ychwanegu un neu ragor o'r gweddïau/litaniau hyn; yma neu ar ôl Traddodiant:*

1. Bydd rasol, Arglwydd, wrth ein **brawd/chwaer** ymadawedig, fel, wedi ei **(rh)ryddhau** wrth rwymau pechod a marwolaeth, y perffeithir **ef/hi** trwy dy

ras a'i dderbyn i'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

2. Hollalluog Dduw, a ddatguddiaist mai dy annwyl Fab yw'r atgyfodiad a'r bywyd: gweddiwn arnat ein cyfodi ni o angau pechod i fywyd cyfiawnder, fel, wedi ymado â'r bywyd hwn, y gorffwyswn ynddo ef, megis y mae ein gobaith am ein **brawd hwn/chwaer hon**, a derbyn yn y diwedd y fendith: Da was da a fyddlon; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd. Caniatâ hyn, O Dad trugarog, trwy Iesu Grist, ein Cyfryngwr a'n Gwaredwr. **Amen.**
3. Dad nefol, a roddaist i ni yn dy Fab Iesu Grist wir ffydd a gobaith diogel: cymorth ni i fyw fel y rhai sy'n credu ac yn ymddiried yng nghymun y saint, maddeuant pechodau, a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, a chryfha ynom y ffydd a'r gobaith hwn holl ddyddiau ein bywyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
4. Hollalluog Dduw, Tad pob trugaredd a rhoddwr pob cysur: bydd rasol wrth y rhai sy'n galaru, fel trwy fwrw pob gofal arnat ti, y cânt brofi diddanwch dy gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
5. Diolchwn i ti, O Dduw, am ddatguddio dy gariad a'th ras yn y rhai sydd wedi byw yn ôl dy ewyllys ac sy'n awr yn gorffwys. Gofynnwn am i'w bywyd a'u hesiampl barhau i'n calonogi a'n harwain holl ddyddiau ein bywyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
6. Arglwydd trugarog, yn dy gariad rhoddaist inni dy Fab i orchfygu angau ac i ddwyn bywyd tragwyddol i'th bobl. Cysura dy weision yn eu profedigaeth, a chryfha ein ffydd a'n gobaith yn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**
7. **Dad Nefol,**  
**ti sy'n noddfa a nerth i ni.**  
**Gofynnwn iti ein cynorthwyo'r awr hon;**  
**cryfha ein ffydd,**  
**dilea ein hofnau,**  
**adnewyddu ein gobaith.**  
**Arweinied yr Ysbryd Glân ni**  
**trwy dywyllwch ein tristwch**  
**i oleuni dy gariad tragwyddol:**  
**yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**
8. *Addas ar gyfer y Traddodiant*  
Tywys ni, O Arglwydd Dduw, yn ein deffro olaf, at borth a th fl'r nefoedd, i fynd i mewn i'r porth a thrigo yn y tfl hwnnw, lle ni fydd tywyllwch na disgleirdeb, ond un goleuni cyfartal; dim twrw na thawelwch, ond un gerddoriaeth gyfartal; dim ofnau na gobeithion, ond un tragwyddoldeb cyfartal, yn

nhrigfannau dy fawrhydi a'th ogoniant di, byth bythoedd. **Amen.**

*(John Donne)*

9. Gadewch inni droi yn hyderus at Grist ein Harglwydd ac ymddiried yng angrym ei groes a'i atgyfodiad :

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd, atgyfodedig, patrwm ein bywyd ar y ddaear ac o'r hyn a fyddwn;  
Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

Fab Duw, a ddaeth i ddinistrio grym pechod a marwolaeth;

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

Fugail tirion, sy'n rhoi gorffwys i'n heneidiau;

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

Waredwr trugarog, bendithia bawb sy'n galaru'r dydd hwn (*y nos hon*);

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

*(Addasiad o Drefn Angladdau Cristnogol)*

10. Gyfododd Duw Iesu Grist oddi wrth y meirw; gan ymddiried yn ostyngedig ynddo, gofynnwn iddo achub pawb, y byw a'r ymadawedig.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

**gwrando ein gweddi.**

Caniatâ y bydd pawb a fedyddiwyd i Grist yn farw i bechod ac yn fyw i Dduw, fel y medrwn fynd gydag ef, trwy'r bedd a phorth angau, i'n hatgyfodiad llawen.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

**gwrando ein gweddi.**

Dyro i'th bobl ffyddlon faddeuant a thangnefedd, fel y'n glanhaer ni oddi wrth ein holl bechodau, ac y medrwn dy wasanaethu di â meddwl tawel.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

**gwrando ein gweddi.**

Dyro i bawb sy'n galaru ymddiried yn dy ofal tadol di, fel, wedi bwrw eu galar arnat ti, y medrant deimlo cysur dy gariad.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

**gwrando ein gweddi.**

*(Addasiad o weddi o Ganada)*

11. Arglwydd Iesu Grist, gwyddost feddyliau ein calonnau, yr wyt yn rhannu ein llawenydd a'n galar; dyfnha ein ffydd a chynnal ni yn yr awr dywyll hon.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

**gwrando ein gweddi.**

Arglwydd, fe gysuraist Mair a Martha yn tu trallod; dynesa atom ni sy'n galaru dros **E.**, a sych ymaith ddagrau bawb sy'n wylo.



Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Arglwydd, wylaist wrth fedd Lasarus, dy ffrind;  
cysura ninnau hefyd yn ein galar.  
Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

[Arglwydd golchwyd **E.** dy blentyn yn nŵr y bedydd a'i (**h**)eneinio â'r  
Ysbryd Glân; dyro **iddo/iddi** gymdeithas â'th holl saint.  
Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**]

[Arglwydd, maethaist **E.** â'th gorff a'th waed; dyro **iddo/iddi** le wrth y  
bwrdd yn dy deyrnas.  
Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**]

[Arglwydd, arweiniodd **E. dy ddiagon/offeiriad/esgob** di, weddiâu ac  
addoliad dy bobl; bydded **iddo ef/iddi hi** yn awr gael cyfran yn addoliad  
y nef.  
Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**]

Arglwydd, bydded i'n ffydd fod yn gysur inni, a bywyd tragwyddol yn obaith  
inni.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

*(Addasiad o weddi o UDA)*

12. Dad Hollalluog, Dduw'r Creawdwr, ffynhonnell a phenllanw pob bywyd:  
**trugarha wrthym.**

Iesu Grist, Waredwr croeshoeliedig ac Arglwydd byw, arweinydd a chydym-  
daith:  
**trugarha wrthym.**

Ysbryd Glân, trwy allu'r hwn y'n hadnewyddir, ac yng ngoleuni'r hwn y medr-  
wn gerdded heb ofn nac amheuaeth:  
**trugarha wrthym.**

Yng ngwendid ein ffydd, prinder ein gobaith a'n diffyg cariad:  
**trugarha wrthym.**

Pan fyddwn yn cadw'n doniau i ni ein hunain, ac yn ceisio byw hebot ti:  
**trugarha wrthym.**

Am dy fod ti wedi'n gwneud ni ar dy gyfer di dy hun:  
**diolchwn i ti, Arglwydd.**

Am mai ti sy'n rhoi bywyd i bob enaid:

## diolchwn i ti, Arglwydd.

Am dy fod ti yn ein hadfywio yn ein holl alar a'n treialon, ac yn ein harwain ni gerllaw y dyfroedd tawel:

## diolchwn i ti, Arglwydd.

Am dy fod ti wedi rhoi inni sicrwydd ffydd, goleuni gobraith a grym cariad trwy atgyfodiad dy Fab:

## diolchwn i ti, Arglwydd.

*(Walter Williams)*

13. Mewn goleuni a thywyllwch, mewn llawenydd a thralod, helpa ni, Dad nefol, i ymddiried yn dy gariad, i gyflawni dy fwriad ac i foli dy enw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.** *(Addasiad o un o weddiâu Seland Newydd)*
14. *Cyn neu ar ôl darlleniad o'r Beibl (gweler 15 hefyd)*  
Helpa ni, Arglwydd, i dderbyn a deall dy air, fel y gallwn ddod o hyd i oleuni yn ein tywyllwch, ffydd yn ein hamheuaeth a chysur i'n gilydd yn dy eiriau achubol di; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
15. *Cyn neu ar ôl darlleniad o'r Beibl (gweler 14 hefyd)*  
Arglwydd grasol, helpa ni i wrando'n astud ar dy Air, fel y cawn gysur yn ein galar, goleuni yn ein tywyllwch, a ffydd yng nghanol amheuaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.** *(Y Cydbwyllgor Litwrgaidd)*
16. Arglwydd pob tynerwch, dyro inni ras i ymddiried **E.** i'th gariad anffaeledig di; derbyn **ef/hi** i'th freichiau trugarog, a dyro inni gydag **ef/hi** ran yn dy deyrnas. Gweddïwn hwn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
17. Dad nefol, traddodaist dy Fab, Iesu Grist i ddiodefaint ac angau'r groes, a'i godi i fywyd mewn gogoniant; dyro i ni ffydd amyneddgar mewn cyfnod o dywyllwch, ac atgyfnertha ein calonnau gyda dirnadaeth o'th gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.** *(Y Llyfr Gwasanaeth Amgen)*
18. Dad trugarog ac Arglwydd pob bywyd, molwn di am greu gŵr a gwragedd ar dy ddelw, i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni. Diolchwn i ti am y bywyd a roddaist i **E.**, am y cariad a'r trugaredd a dderbyniodd **ef/hi** oddi wrthyt ti ac a amlygodd yn ein plith ni. Uwchlaw pob dim, ymhyfrydwn yn dy addewid grasol i'th holl wasanaethyddion, byw ac ymadawedig, y byddwn ni oll yn codi drachen pan ddaw Crist. Gofynnwn felly, y cawn ni, gyda'n brodyr a'n chwiorydd, ymhen y rhawg, fwynhau'r weledigaeth gliriach honno, pan welwn dy wyneb di yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **Amen** *(Y Llyfr Gwasanaeth Amgen)*
19. Dad nefol, diolchwn i ti am ein creu ar dy ddelw dy hun ac am roddi i

ni ddoniau'r meddwl, y corff a'r ysbryd. Diolchwn i ti yn awr am **E.** ac am yr hyn a olygodd **ef/hi** i bawb ohonom. A ninnau'n anrhydeddu ei **g/coffawdwriaeth**, gwna ni'n fwy ymwybodol mai ohonot ti y daw pob rhodd berffaith gan gynnwys rhodd y bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

20. *Addas ar gyfer y Traddodiant:*

Arglwydd, ti yn unig yw ffynhonell bywyd: bydded i'th Ysbryd di, sy'n rhoi bywyd, llifo trwom ni, gan greu ynom dosturi tuag at ein gilyddr. Yn ein glar rho inni dawelwch dy dangnefedd; a chynnau ein gobaith, fel y troir ein galar yn llawenydd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*(Addasiad o weddi o Awstralia)*

21. *Addas ar gyfer y Traddodiant (gweler 22 hefyd)*

Dad tragwyddol, Dduw pob cysur, yn dy drugaredd diderfyn yr wyt ti wedi troi tywyllwch angau yn wawr bywyd, trwy farwolaeth ac atgyfodiad dy Fab Iesu Grist. Dyro inni ffydd i deithio ymlaen gydag ef, fel y cawn, ar ôl y bywyd hwn, ein hailuno â'n brodyr a'n chwirydd yng Nghrist, lle ni fydd dagrau na phoen mwyach; trwy'r hwn sydd yn oleuni bywyd, Iesu Grist ein Gwaredwr. **Amen.**

*(Addasiad o weddi o Awstralia)*

22. *Addas ar gyfer y Traddodiant (gweler 21 hefyd)*

'Pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i feddwl dyn

y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu.'

Dduw pob diddanwch, yn dy gariad a'th drugaredd diddiwedd yr wyt ti'n troi tywyllwch angau yn wawr bywyd newydd. Tosturia wrth dy bobl yn eu galar. Bydd yn noddfa ac yn nerth i ni, i'n codi ni o dywyllwch galar i dangnefedd a goleuni dy bresenoldeb di.

Trwy farw drosom ni, trwy orchfygu angau, a thrwy atgyfodi drachefn, fad-fenwyd ni i fywyd Iesu Grist dy Fab ; bydded inni fynd ymlaen yn eiddgar i'w gyfarfod, a chael ein hailuno â'n brodyr a'n chwirydd yn y man lle sychir pob deigr yn ymaith pan ddaw ein bywyd ar y ddaear i ben. Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*(Addasiad o Promise of His Glory/Awstralia/Canada)*

23. *Addas ar gyfer y Traddodiant:*

O Arglwydd, cynnal ni trwy gydol ein bywyd blin, hyd oni estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr, distewi o ddwndwr byd, tawelu o dwymyn bywyd, a gorffen ein gwaith. Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd, dyro inni lety diogel, gorffwysfa sanctaidd, a thangnefedd yn y diwedd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*(Addasiad o John*

*Henry Newman)*

24. *Addas ar gyfer y Traddodiant:*  
 Sanctaidd a thragwyddol yw ein Duw ni; hollalluog a doeth.  
 Cariadus a thrugarog yw ein Duw ni; agos atom yn ein galar a'n hanghenion.  
 I'r rhai sy'n teithio drwy'r byd hwn gyda Iesu'n arweinydd iddynt,  
 erys bywyd tragwyddol, gorffwys a llawenydd anhraethol,  
 yn goron ar eu pererindod.  
 Sanctaidd a thragwyddol yw ein Duw ni; ffynhonnell bywyd a bugail  
 eneidiau, barnwr trugarog a Gwaredwr pawb oll. **Amen.** (*Walter Williams*)
25. *Addas ar gyfer y Traddodiant:*  
 Dad annwyl, rhoddwr bywyd, fe'n gwnaethost ar dy gyfer dy hun ac mae ein  
 calonnau yn anniddig nes iddynt orffwys ynot ti. Caniatâ inni dy garu a'th  
 wasanaethu di, a byw iti bob dydd yn y fath fodd, fel y gallwn o'r diwedd  
 estyn ein breichiau atat ti gan wybod dy fod ti'n ein caru, agor ein calonnau i  
 ti gwybod ein bod wedi derbyn maddeuant; felly, wedi'n caru ac wedi derbyn  
 dy faddeuant y medrwn orffwys ynot ti; trwy gariad ein Gwaredwr Iesu Grist.  
**Amen.** (*Walter Williams, efel. Awstin*)
26. I'th ddwylo di, Waredwr trugarog, y cyflwynwn **E., dy was/dy forwyn.**  
 Gweddiwn arnat i arddel dafad o'th gorlan, oen o'th ddiadell, pechadur a  
 waredaist. Derbyn **ef/hi** i'th freichiau trugarog, i fendigaid orffwys y  
 tangnefedd tragwyddol, ac i ogoneddus gwmni'r saint yn y goleuni. **Amen.**  
 (*Canada*)
27. Dyro inni, Arglwydd Duw, i ymddiried, nid ar ein rhan ein hunain yn unig,  
 ond hefyd ar ran y rhai a garwn ac a guddir rhagom gan gysgod angau; fel,  
 yn union fel y credwn bod dy rym wedi codi ein Harglwydd Iesu Grist oddi  
 wrth y meirw, y medrwn ymddiried y bydd dy gariad yn rhoi bywyd  
 tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sydd yn  
 byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn awr a hyd byth. **Amen.**  
 (*Promise of His Glory: Mowbray/Cassell/David Silk*)

## 7 Y CYFLWYNIANT

---

*Dywed y Gweinidog, yn sefyll:*

Cyflwynwn ein **brawd/chwaer E.** i ddwylo Duw, ein Crëwr a'n Gwaredwr.

O Dduw ein Tad nefol, sydd trwy dy allu mawr wedi ein cynysgaeddu â bywyd, ac  
 yn dy drugaredd wedi rhoddi inni fywyd newydd yng Nghrist Iesu: cyflwynwn i'th  
 ofal tosturiol **E ein brawd/chwaer**, trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, a fu  
 farw ac a gyfododd drachefn i'n hachub, ac sy'n byw ac yn teyrnas gyda thi  
 mewn gogoniant byth bythoedd. **Amen.**

## 8 Y DIWEDDGLO

---

Gorffwys dyro, Grist, i'th weision gyda phawb o'th saint,  
lle nid oes gofid mwy na phoen,  
na gorthrynderau blin a gwae,  
ond bywyd yn dragwyddol.

Tydi dy hun yn ynig sydd anfarwol,  
Creawdwr a Chynhaliwr dyn;  
marwolion ydym ni o bridd y ddaear,

ac i'r pridd y dychwelwn:  
canys felly yr ordeiniaist,  
pan greaist ni, gan ddywedyd:  
Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.  
Dan wylo uwch y bedd dyrchafwn gân:  
**Alelwia, alelwia, alelwia.**

### *Neu*

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,  
a chariad Duw,  
a chymdeithas yr Ysbryd Glân,  
a fo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**

### *Neu*

Dyro *iddo/iddi*, O Arglwydd, orffwys tragwyddol;  
A llewyrched goleuni gwastadol *arno/arni*.

### *Neu*

Awn ymaith mewn tangnefedd,  
**Yn enw Crist. Amen.**

## 9 Y TRADDODIANT

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru, dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiant y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd, [tud. 20].*

*Yn y lle y rhoddir y corff i'w gladdu dywed y Gweinidog:*

Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau;  
gan bwy y mae i ni geisio ymwared, ond gennyt ti, O Arglwydd,  
sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddi-clon?  
Er hynny, Arglwydd Dduw sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf,

O iachawdwr sanctaidd a thrugarocaf,  
na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.  
Ti adwaenost, Arglwydd, ddirgelion ein calonnau;  
na thro dy glustiau trugarog oddi wrth ein gweddïau;  
eithr arbed ni, O Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluocaf,  
O iachawdwr sanctaidd a thrugarog, tydi deilyngaf Farnwr tragwyddol,  
na ad i ni yn ein hawr olaf, er unrhyw boenau angau, syrthio oddi wrthyt.

**Neu**

### **SALM 103: 13-17a**

Fel y tosturia tad wrth ei blant,\*  
felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.  
Canys efe a edwyn ein defnydd ni;\*  
cofia mai llwch ydym.  
Dyddiau dyn sydd fel glas welltyn;\*  
megis blodeuyn y maes felly y blodeua efe;  
Canys y gwynt â drosto ac ni bydd mwy ohono,\*  
a'i le nid edwyn ddim ohono ef mwy.  
Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb\*  
at y rhai a'i hofnant ef.

*Os na ddefnyddiwyd y cyflwyniant eisoes fe'i denyddir yma:*

*Yna dywed y Gweinidog:*

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod enaid ein **brawd/chwaer** yn nwylo Duw, yr ydym yn traddodi **ei gorff ef/ei chorff hi**.

*(ar lan y bedd)* i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,

*(yn yr amlogfa)* i'w amlogi, [pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,]

*(ar y môr)* i'r dwfn, mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gawel ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sy'n ei alluogi i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

“Yna clywais lais o'r nef yn dweud, ‘Ysgrifenna: O hyn allan gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr Arglwydd. Ie, medd yr Ysbryd, cânt orffwys o'u llafur, oherwydd y mae eu gweithredoedd yn mynd gyda hwy.’” **(Datguddiad 14.13)**

*[Os na ddywedwyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:*

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.**

*Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau yn Adran 6 a geir o'r blaen, os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.*

## 10 Y DIWEDDGLO

---

Arhosed cymorth Duw gyda ni'n wastad a, thrwy ei drugaredd, gorffwysed eneidiau'r ffyddloniaid mewn tangnefedd. **Amen.**

### *Neu*

Bydd i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth i chwi arfer eich fydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Oblegid ohono ef a thrwyddo ef ac ynddo ef y mae pob peth. Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

### *Neu*

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,  
a chariad Duw,  
a chymdeithas yr Ysbryd Glân,  
a fo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**

### *Neu*

Bydded i Dduw tangnefedd,  
yr hwn a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu,  
fugail mawr y defaid,  
trwy waed y cyfamod tragwyddol,  
eich cyflawni â phob daioni,  
er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef,  
a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo,  
trwy Iesu Grist,  
i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

### *Neu*

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn ddwyn yr Eglwys gyfan, y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu, i atgyfodiad llawen a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

### *Neu*

Bydded i'r Hollaluog Dduw, a roddodd i ni'r fuddugoliaeth trwy atgyfodiad eir Harglwydd Iesu Grist, roi i chwi lawenydd a thangnefedd trwy gredu. **Amen.**

*NODIAD. Gellir defnyddio Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, ar wahân i'r Cyflwyniant, fel Gwasanaeth Coffa. Dylid defnyddio un o'r ffurfiau Diweddgllo sy'n dilyn y Cyflwyniant i ddiweddu'r gwasanaeth.*

*Os bydd pregeth, fe ddaw ar ôl y Lith, neu, os Y Cymun Bendigaid fydd Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, fe ddaw ar ôl yr Efengl.*

*Mae Trefn Claddu Llwhch wedi Amlosgiad i'w chael yn Adran 17.*



## 11 TREFN CLADDEDIGAETH PLENTYN

---

*Gan gyfarfod â'r corff a mynd o'i flaen i'r eglwys neu at lan y bedd, dywed y Gweinidog un neu fwy o'r brawddegau hyn:*

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

**(Ioan 11. 25, 26)**

Myfi yw'r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i.

**(Ioan 10.14)**

Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw. **(Mathew 5. 8)**

Peidiwch â gadael i ddym gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyf mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

**(Ioan 14. 1-3)**

Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw; ac ni amlygwyd eto byth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan amlygir hynny, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

**(1 Ioan 3. 2)**

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw, Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yr Arglwydd ar y meirw a'r byw.

**(Rhufeiniaid 14. 8, 9)**

Oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr Orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigr yn o'u llygaid hwy.

**(Datguddiad 7. 17)**

*Yn yr eglwys gellir yn awr weinyddu'r Cymun Bendigaid.*

*Dewisir darlenniad o'r hen Destament neu'r Testament Newydd ac Efengyl o'r Rhestr yn Adran 5*

*Dilynir y Cymun Bendigaid gan y Cyflwyniant.*

*Os na weinyddir y Cymun Bendigaid, parheir y gwasanaeth fel a ganlyn:*

## SALM 23

Yr Arglwydd yw fy mugail;\*  
ni bydd eisiau arnaf.

Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog\*  
efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel.

Efe a ddychwel fy enaid\*

efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.  
Ie pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid ofnaf niwed  
canys yr wyt ti gyda mi  
dy wialen a'th ffon a'm cysurant.

Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy ngwrthwynebwyr:\*  
iraist fy mhen ag olew; fy ffiol sydd lawn.

Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd,\*  
a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd.

## 12 DARLLENIAD NEU DDARLLENIADAU O'R BEIBL

---

*Dywed y darllenydd:*

Darlleniad o .....

*Ceir distawrwydd ar ôl y darllenydd.*

*Gall y darllenydd ddweud:*

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch fo i Dduw.**

*Gweler adran 5 am restr o ddarlleniadau addas\*.*

*Gellir canu emyn.*

## 13 Y GWEDDIAU

---

Yr Arglwydd a fo gyda chwi:  
**A chyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

\* Arglwydd, trugarha wrthym.  
**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwnefer dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.**

*\* Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gwedi'r Arglwydd naill ai yma neu ar ôl y Traddodiant.*

### **Naill ai:**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a addewaist i ni trwy dy Fab Iesu Grist fywyd tragwyddol; dyro inni gredu'n ddiysgog fod y plentyn hwn yn ddiogel yng ngofal dy gariad tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

### **Neu**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a addewaist i ni trwy dy Fab Iesu Grist fywyd tragwyddol: dyro inni'n gredu'n ddiysgog fod y **plentyn hwn E.** yn ddiogel yng ngofal dy gariad tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Gellir defnyddio gweddïau eraill, o blith y canlynol, neu o blith y rhai yn Adran 6, yn y fan hon neu wedi'r Traddodiant, yn ôl doethineb y gweinidog.

1. Dad, y cymerodd dy Fab Iesu Grist blant yn ei freichiau a'u bendithio; dyro i ni ras i ymddiried **E.** i'th ofal a'th gariad di, a thywys ni i gyd i'th deyrnas nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
2. Arglwydd Dduw, rhag yr hwn ni chuddir unrhyw dristwch dynol, gwyddost am faich ein galar am inni golli'r plentyn hwn, **E.** Wrth i ni alaru am ei **ef/hi** wedi mynd o'r bywyd hwn, cysura ni â'r wybodaeth ei fod **ef/hi** bellach yn byw yn dy fynwes gariadus di. Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**
3. Arglwydd Dduw, ymddiriedaist **E.** i'n gofal ni. Yn awr yr wyt ti yn dy gariad yn **ei gofleidio ef/ei chofleidio hi.** Cadw **ef/hi** yn ddiogel ynghyd â'r holl blant a fu farw. Cysura ni, dy wasanaethyddion galarus, sy'n ceisio cyflawni dy ewyllys a phrofi dy dangnefedd achubol di, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
4. *Dros y rhieni:*  
Dduw cariad, cysura **E.** (ac **E.**) yn eu trallod, fel y gallant ddal eu gafael ynot ti mewn hawddfyd ac mewn adfyd, ac ymddiried yn dy gariad gwastadol di, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
5. *Dros y rhieni:*  
Arglwydd, y ffyrdd yr hwn sydd y tu hwnt i'n dirnadaeth di, gwranddo ar weddïau dy bobl, fel y gall y rhai sy'n gwyro o dan bwysau galar colli'r **plentyn hwn, E.** dderbyn cysur yn eu trallod, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
6. *Dros y rhieni:*  
Arglwydd Dduw, safodd Mair, mam Iesu, wrth droed y groes tra oedd ei mab yn marw. Bydded i'r un Iesu, a orchfygodd angau, gysuro **E.** ac **E.** a chryfhau eu ffydd ynot ti; gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
7. *Dros y rhieni:*  
Dduw'r tosturi, ti yn unig a all gyfannu ein calonnau toredig; ti yn unig a all sychu ymaith ein dagrau hallt; ti yn unig a all roi i ni'r tangnefedd y mae ei angen arnom; ti yn unig a all roi i ni'r nerth i ddal ati. Gofynnwn i ti fod yn agos at **E.** ac **E.** a phob un y trowyd eu llawenydd yn dristwch. Helpa ni i fod yn ymwybodol o'th bresenoldeb yma gyda ni; calonoga ni trwy dy nerth a dyfnha ein cariad at ein gilydd am ein bod yn gwybod dy fod ti'n ein caru ni i gyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
8. *Dros rieni plentyn a fu farw cyn oddi gael ei eni:*  
Arglwydd, diolchwn i ti am y cariad a genhedlodd y plentyn hwn (**E.**), a'r cariad a oedd yn aros **amdano/amdani** yn **ei gartref/ei chartref.** Gweddïwn

am i gariad **E. (ac E.) ei rieni/ei rhieni** dyfu a dyfnhau yn ystod y dyddiau sydd i ddod. Dyro i ni ras i ymddiried ynot ti, O Arglwydd, ein hunig nerth a'n noddfa mewn cyfyngder; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

9. *Dros rieni plentyn a fu farw cyn iddo gael ei eni:*

Dad nefol, sy'n iacháu'r drylliedig o galon, edrych yn dosturiol ar dy wasanaethyddion hyn, y trowyd eu llawenydd yn alar. Cysura hwy, a phâr iddynt dyfu'n nes at ei gilydd ac atat ti yn eu hadfyd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*(Addaswyd o weddi'r Cydbwyllgor Litwrgaidd)*

10. *Dros y fam:*

Dad cariadus, yn dy drugaredd cedwaist **E.** yn ddiogel yn ystod yr esgor. Gweddïwn y bydd hi heddiw yn profi dy nerth di ac yn cael ei hamddiffyn gennynt ti bob amser, trwy Iesu Grist ein Gwaredwr. **Amen.**

*(Llyfr Gwasanaeth Amgen)*

11. Arglwydd pawb oll, diolch i ti am dy waith yn creu, am gynysgaeddu bywyd yn y groth, am ein caru hyd yn oed at angau. Diolchwn i ti am fywyd y plentyn hwn (**E.**), a roddaist i ni ac a gymeraiست atat dy hun. Diolchwn i ti bod dy freichiau cariadus di, yn ein cofleidio ni ac **E.** yn dy deulu di. Cymer ein tristwch a llanw ni â'th Ysbryd, fel y medrwn dy wasanaethu di yma ar y ddaear ac ymuno â'th saint mewn gogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

12. Arglwydd, fe'n ceraist o dragwyddoldeb a'n ffurfio ni yng nghroth ein mam. Diolchwn i ti am y plentyn hwn (**E.**) am ryfeddod **ei f/bodolaeth** sy'n rhan o'n gwead ni. Helpa ni i'w ymddiried **ef/hi** i ti, gan wybod ei fod **ef/ei** bod hi yn ddiogel yn dy ofal di. Gweddïwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

13. Dad nefol, ein cydymaith, cariad yr hwn sydd gyda ni bob amser, hyd yn oed yng nghanol dirgelwch tywyll dioddefaint a cholled; trown atat ti yn awr mewn ffydd gan ofyn i ti roi amddiffyniad dy gariad i'n plentyn anwylaf, **E.** Cysura ni, O Dad, ac arwain **ef/hi** i lawenydd a chyflawnder yn dy deyrnas nefol, trwy rym dy gariad a ddatguddiaist i ni yn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

*(Walter Williams)*

14. Dduw hollalluog, teyrnas yr hwn ni fedrwn ei derbyn oni fyddwn fel plant, diolchwn i ti am gael y plentyn bach hwn yn rhodd. Diolchwn i ti am y cariad a'r ymddiriedaeth a ysgogodd **ef/hi** yng nghalonau'r rhai y daeth **ef/hi** atynt, am y llawenydd a roes **ef/hi** i bawb a oedd yn **ei adnabod/ei hadnabod**, ac am yr atgofion gwerthfawr amdano/amdani a fydd yn aros. Tosturia wrth dy wasanaethyddion y trowyd eu llawenydd yn alar, aros gyda hwy a bydd yn noddfa iddynt hyd oni wawria'r dydd ac y cilia'r cysgodion; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## 14 Y CYFLWYNIANT

---

I ti, O Dduw sanctaidd a Thad cariadlon, y cyflwynwn **E**, a gweddiwn y bydd i ni yn dy amser di dy hun lawenhau **gydag ef/gyda hi** yn dy deyrnas dragwyddol; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd. **Amen.**

*\* Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddi'r Arglwydd naill ai yma neu ar ôl y Traddodiant.*

## 15 Y TRADDODIANT

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiant y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd [tud. 32].*

*Yn y lle y rhoddir y corff i'w draddodi dywed y Gweinidog:*

### SALM 103: 13-17a

Fel y tosturia rhiant wrth ei blant,  
felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.  
Canys efe a edwyn ein defnydd ni;  
cofia mai llwch ydym.  
Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn;  
megis blodeuyn y maes felly y blodeua efe;  
Canys y gwynt â drosto ac ni bydd mwy ohono,  
a'i le nid edwyn ddim ohono ef mwy.  
Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb\*  
at y rhai a'i hofnant ef.

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod y **plentyn hwn, E.**, yn nwylo Duw, yr ydym yn traddodi **ei gorff ef/ei chorff hi.**

*(ar lan y bedd) i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,*

*(yn yr amlosgfa) i'm amlogi,*

*(ar y môr) i'r dwfn,*

mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gwael ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sy'n ei alluogi i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

*[Os na ddywedyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:*

\* Arglwydd, trugarha wrthym.  
**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneler dy ewylllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol .  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.]**

*Yma gellir defnyddio unrhyw rai o'r Gweddïau o adrannau 16 a/neu 13 os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.*

## **16 Y DIWEDDGLO**

---

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant, iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr oesoedd, ac yn awr, ac yn oes oesoedd. **Amen** **(Jwdas 24, 25)**

## 17 CLADDU LLWCH WEDI AMLOSGIAD

---

*Pan fydd llwch wedi amlosgiad i'w gladdu mewn tir sydd wedi ei gysegru gellir amlosgi heb unrhyw wasanaeth ffurfiol. Yna defnyddier ffurf briodol y Traddodiant i gladdu'r llwch.*

*Gellir defnyddio'r Gwasanaeth yn yr Eglwys naill ai o flaen yr amlosgiad neu ar ei ôl.*

*Dylid claddu llwch Cristionogion mewn tir sydd wedi ei gysegru, oddieithr pan gleddir yn y môr. Ni chaniateir i glerigwr yn yr Eglwys yng Nghymru gymryd rhan mewn gwasgaru llwch, ac ni all yntau ychwaith ganiatáu i lwch gael ei wasgaru mewn unrhyw fynwent dan ei ofal.*

*Pan fydd llwch i'w gladdu, a'r Traddodiant wedi ei ddefnyddio, gall y Gweinidog ddefnyddio'n gyntaf Y Gwasanaeth yn yr Eglwys ynghyd ag unrhyw rai o'r Gweddïau.*

*Yn y lle y bydd y claddu dywed y Gweinidog:*

Gan gredu fod ein **brawd/chwaer E.** yn gorffwys yng Nghrist, a chan lawenhau yng nghymun y saint, yr ydym yn traddodi **ei llwch/ei llwch** i'r ddaear mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Gellir ychwanegu darlenniad beiblaidd o Adran 5*

*Gellir defnyddio'r canlynol:*

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu, a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.**



Gellir defnyddio yma unrhyw un o'r gweddïau o adrannau 6 a/neu 13 nas defnyddiwyd eisoes

*Y Diweddglo:*

I Frenin tragwyddoldeb yr anfarwol a'r anweledig a'r unig Dduw, y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

## 18 BENDITHIO'R BEDD

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru, defnyddier y weddi hon cyn y Traddodiant.*

O Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, bendithia'r bedd hw yn orffwysfa i gorff dy was; trwy dy Fab bendigaidd, yr atgyfodiad a'r bywyd, sy'n byw ac yn teyrnas gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

## 19 NODIADAU YCHWANEGOL

---

- 1. Ceir pregeth yn arferol yn dilyn y darlleniadau o'r Beibl. Os yw'n addas gall y gweinidog ganiatáu i rywun a adnabu'r ymadawweddig siarad yn gryno amdano/amdani cyn neu ar ddechrau'r gwasanaeth.*
- 2. Dylid claddu llwch wedi amlosgiad yn y ddaear bob amser naill ai mewn casged ddiraddiadwy neu yn rhydd, neu yn y môr. Nid dylid gwasgaru llwch ar wyneb y ddaear, ac ni ddylai clerig yn yr Eglwys yng Nghymru caniatáu i hyn ddigwydd mewn unrhyw fynwent dan ei g/ofal.*

## 20 DARLLENIADAU O'R BEIBL (Beibl Gymraeg Newydd)

---

\* *Yn addas ar gyfer angladd plentyn*

**Pregethwr 3: 1-8:** *Tymor i bob peth*

<sup>1</sup> Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:

<sup>2</sup> amser i eni, ac amser i farw, amser i blannu, ac amser i ddiwreiddio'r hyn a blannwyd;

<sup>3</sup> amser i ladd, ac amser i iach u, amser i dynnu i lawr, ac amser i adeiladu;

<sup>4</sup> amser i wylo, ac amser i chwerthin, amser i alaru, ac amser i ddawnsio;

<sup>5</sup> amser i daflu cerrig, ac amser i'w casglu, amser i gofleidio, ac amser i ymatal;

<sup>6</sup> amser i geisio, ac amser i golli, amser i gadw, ac amser i daflu ymaith;

<sup>7</sup> amser i rwygo, ac amser i drwsio, amser i dewi, ac amser i siarad;

<sup>8</sup> amser i garu, ac amser i gas u, amser i ryfel, ac amser i heddwch.

**Eseia 25: 6-9, 26: 3, 4;** *Llyncir angau am byth*

<sup>6</sup> Ar y mynydd hwn bydd Arglwydd y Lluoedd yn paratoi gwledd o basgedigion i'r bobl i gyd, gwledd o win wedi aeddfedu, o basgedigion breision a hen win wedi ei hidlo'n lân.

<sup>7</sup> Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd, llen galar sy'n cuddio pob cenedl;

<sup>8</sup> Llyncir angau am byth, a bydd yr Arglwydd Dduw yn sychu ymaith ddagrau oddi ar bob wyneb, ac yn symud ymaith warth ei bobl o'r holl ddaear. Yr Arglwydd a lefarodd hyn.

<sup>9</sup> Yn y dydd hwnnw fe ddywedir, "Wele, dyma ein Duw ni. Buom yn disgwyl amdano i'n gwaredu; dyma'r Arglwydd y buom yn disgwyl amdano, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth."

<sup>3</sup> Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â'i feddylfryd arnat, am ei fod yn ymddiried ynot.

<sup>4</sup> Ymddiriedwch yn yr Arglwydd o hyd, canys craig dragwyddol yw'r Arglwydd Dduw.

\***Eseia 61: 1-3;** *Newyddion da i'r toredig o galon*

<sup>1</sup> Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf, oherwydd i'r Arglwydd fy eneinio i ddwyn newydd da i'r darostyngedig, a chysuro'r toredig o galon; i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, a rhoi gollyngdod i'r carcharorion;

<sup>2</sup> i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd a dydd dial ein Duw ni; i ddiddanu pawb sy'n galaru,

<sup>3</sup> a gofalu am alarwyr Seion; a rhoi iddynt goron yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, mantell ysblennydd yn lle digalondid. Gelwir hwy yn brennau teg wedi eu plannu gan yr Arglwydd i'w ogoniant.

### **Galarnad 3: 22-26, 31-33; *Nid oes terfyn ar drugaredd yr Arglwydd***

- <sup>22</sup> Nid oes terfyn ar drugaredd yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau.  
<sup>23</sup> Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.  
<sup>24</sup> Dywedais, “Yr Arglwydd yw fy rhan, am hynny disgwyliaf wrtho.”  
<sup>25</sup> Da yw'r Arglwydd i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio.  
<sup>26</sup> Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr Arglwydd.  
<sup>31</sup> Oherwydd nid yw'r Arglwydd yn ei anwybyddu am byth;  
<sup>32</sup> er iddo gystuddio, bydd yn trugarhau yn ôl ei dosturi mawr,  
<sup>33</sup> gan nad o'i fodd y mae'n poenydio ac yn cystuddio dynion.

### **Doethineb Solomon 3: 1-9; *Ni chyffwrdd cystudd â hwynt***

- <sup>1</sup> Ond y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw, ac ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan.  
<sup>2</sup> Yn llygaid y rhai ynfyd, y maent fel pe baent wedi marw; ystyriwyd eu hymadawiad yn drychineb,  
<sup>3</sup> a'u mynediad oddi wrthym yn ddistryw; ond y maent mewn hedd.  
<sup>4</sup> Oherwydd er i gosb ddod arnynt yng ngolwg dynion, digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb;  
<sup>5</sup> ac er eu disgyblu ychydig, mawr fydd eu hennill, am fod Duw wedi eu profi a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun.  
<sup>6</sup> Fel aur mewn tawddlestr y profodd hwy, ac fel poethoffrwm yr aberth y derbyniodd hwy.  
<sup>7</sup> Pan ddaw Duw i ymweld â hwy cyneuant yn wenfflam; fel gwreichion mewn sofr fe redant drwy'r byd.  
<sup>8</sup> Cânt lywodraethu ar genhedloedd a rheoli ar bobloedd, a'r Arglwydd fydd eu brenin am byth.  
<sup>9</sup> Bydd y rhai sy'n ymddiried ynddo ef yn deall y gwir, a'r ffyddloniaid yn gweini arno mewn cariad, oherwydd gras a thrugaredd yw rhan ei etholedigion.

### **\*Mathew 5: 1-12a; *Y Gwynfydau***

- <sup>1</sup> Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato.  
<sup>2</sup> Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn:  
<sup>3</sup> “Gwyn eu byd y rhai sy'n dldion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.  
<sup>4</sup> Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.  
<sup>5</sup> Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.  
<sup>6</sup> Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.  
<sup>7</sup> Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.  
<sup>8</sup> Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.  
<sup>9</sup> Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n feibion Duw.

<sup>10</sup> Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

<sup>11</sup> Gwyn eich byd pan fydd dynion yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddyrgair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i.

<sup>12</sup> Llawnhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd .

**\*Mathew 11: 25-30; Rhoddaf orffwstra i chwi**

<sup>25</sup> Yr amser hwnnw dywedodd Iesu, "Yr wyf yn dy foliannu di, O Dad, Arglwydd nef a daear, am iti guddio'r pethau hyn rhag y doethion a'r deallusion, a'u datguddio i rai bychain;

<sup>26</sup> ie, O Dad, oherwydd felly y rhyngodd dy fodd di.

<sup>27</sup> Traddodwyd i mi bob peth gan fy Nhad. Nid oes neb yn adnabod y Mab, ond y Tad, ac nid oes neb yn adnabod y Tad, ond y Mab a phwy bynnag y mae'r Mab yn dewis ei ddatguddio iddo.

<sup>28</sup> Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwstra i chwi.

<sup>29</sup> Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyn-gedig o galon, ac fe gewch orffwstra i'ch eneidiau.

<sup>30</sup> Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn."

**\*Mathew 18: 1-5, 10; Y mwyaf yn Nheyrnas Nefoedd**

<sup>1</sup> Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?"

<sup>2</sup> Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy,

<sup>3</sup> a dywedodd, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd.

<sup>4</sup> Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd.

<sup>5</sup> A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i.

<sup>10</sup> "Gwylwch rhag i chwi ddirmygu un o'r rhai bychain hyn; oherwydd 'rwy'n dweud wrthyich fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser yn edrych ar wyneb fy Nhad sydd yn y nefoedd'".

**\*Marc 10: 13-16; Gadewch i'r plant ddod ataf i**

<sup>13</sup> Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy,

<sup>14</sup> ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn.

<sup>15</sup> Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi."

<sup>16</sup> A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi

ei ddwylo arnynt.

**Marc 15: 33-39, 16: 1-7; Marwolaeth ac atgyfodiad Crist**

<sup>33</sup> A phan ddaeth yn hanner dydd, bu tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn.

<sup>34</sup> Ac am dri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, "Eloï, Eloï, lema sabachthani", hynny yw, o'i gyfieithu, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?"

<sup>35</sup> O glywed hyn, meddai rhai o'r sawl oedd yn sefyll gerllaw, "Clywch, y mae'n galw ar Elias."

<sup>36</sup> Rhedodd rhywun a llenwi ysbwng â gwin sur a'i ddodi ar flaen gwialen a'i gyn-nig iddo i'w yfed. "Gadewch inni weld," meddai, "a ddaw Elias i'w dynnu ef i lawr."

<sup>37</sup> Ond rhoes Iesu lef uchel, a bu farw.

<sup>38</sup> A rhwygwyd llen y deml yn ddwy o'r pen i'r gwaelod.

<sup>39</sup> Pan welodd y canwriad, a oedd yn sefyll gyferbyn ag ef, mai gyda gwaedd felly y bu farw, dywedodd, "Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn."

<sup>1</sup> Wedi i'r Saboth fynd heibio, prynodd Mair Magdalen, a Mair mam Iago, a Salome, beraroglaui, er mwyn mynd i'w eneinio ef.

<sup>2</sup> Ac yn fore iawn ar y dydd cyntaf o'r wythnos, a'r haul newydd godi, dyma hwy'n dod at y bedd.

<sup>3</sup> Ac meddent wrth ei gilydd, "Pwy a dreigla'r maen i fwrdd i ni oddi wrth ddrws y bedd?"

<sup>4</sup> Ond wedi edrych i fyny, gwelsant fod y maen wedi ei dreiglo i fwrdd; oherwydd yr oedd yn un mawr iawn.

<sup>5</sup> Aethant i mewn i'r bedd, a gwelsant ddyn ifanc yn eistedd ar yr ochr dde, a gwisg laes wen amdano, a daeth arswyd arnynt.

<sup>6</sup> Meddai yntau wrthynt, "Peidiwch ag arswydo. Yr ydych yn ceisio Iesu, y gŕ o Nasareth a groeshoeliwyd. Y mae wedi ei gyfodi; nid yw yma; dyma'r man lle gosodasant ef.

<sup>7</sup> Ond ewch, dywedwch wrth ei ddisgyblion ac wrth Pedr. 'Y mae'n mynd o'ch blaen chwi i Galilea; yno y gwelwch ef, fel y dywedodd wrthy'ch.'"

**Luc 24: 13-16, (17-27), 28-35; Y ffordd i Emaus**

<sup>13</sup> Yn awr, yr un dydd, yr oedd dau ohonynt ar eu ffordd i bentref, saith milltir a hanner o Jerwsalem, o'r enw Emaus.

<sup>14</sup> Yr oeddent yn ymddiddan â'i gilydd am yr holl ddigwyddiadau hyn.

<sup>15</sup> Yn ystod yr ymddiddan a'r trafod, nesaodd Iesu ei hun atynt a dechrau cerdded gyda hwy,

<sup>16</sup> ond rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod ef.

(<sup>17</sup> Meddai wrthynt, "Beth yw'r sylwadau hyn yr ydych yn eu cyfnewid wrth gerdded?" Safasant hwy, a'u digalondid yn eu hwynebau.

<sup>18</sup> Atebodd yr un o'r enw Cleopas, "Rhaid mai ti yw'r unig ymwelydd â Jerwsalem nad yw'n gwybod am y pethau sydd wedi digwydd yno y dyddiau diwethaf hyn."

<sup>19</sup> "Pa bethau?" meddai wrthynt. Atebasant hwythau, "Y pethau sydd wedi dig-

wydd i Iesu o Nasareth, dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau yng ngŷydd Duw a'r holl bobl.

<sup>20</sup> Traddododd ein prif offeriaid ac aelodau ein Cyngor ef i'w ddedfrydu i farwolaeth, ac fe'l croeshoeliasant.

<sup>21</sup> Ein gobaith ni oedd mai ef oedd yr un oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid, ond at hyn oll, heddiw yw'r trydydd dydd er pan ddigwyddodd y pethau hyn.

<sup>22</sup> Er hynny, fe'n syfrdanwyd gan rai gwragedd o'n plith; aethant yn y bore bach at y bedd,

<sup>23</sup> a methasant gael ei gorff, ond dychwelsant gan daeru eu bod wedi gweld angylion yn ymddangos, a bod y rheini yn dweud ei fod ef yn fyw.

<sup>24</sup> Aeth rhai o'n cwmni allan at y bedd, a'i gael yn union fel y dywedodd y gwragedd, ond ni welsant mohono ef."

<sup>25</sup> Meddai Iesu wrthynt, "Mor ddiddeall ydych, a mor araf yw eich calonnau i greu'r cwbl a lefarodd y proffwydi!

<sup>26</sup> Onid oedd yn rhaid i'r Meseia ddiodef y pethau hyn, a mynd i mewn i'w ogoniant?"

<sup>27</sup> A chan ddechrau gyda Moses a'r holl broffwydi, dehonglodd iddynt y pethau a ysgrifennwyd amdano ef ei hun yn yr holl Ysgrhythurau.)

<sup>28</sup> Wedi iddynt nes u at y pentref yr oeddent ar eu ffordd iddo, cymerodd ef arno ei fod yn mynd ymhellach.

<sup>29</sup> Ond meddent wrtho, gan bwyso arno, "Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben." Yna aeth i mewn i aros gyda hwy.

<sup>30</sup> Wedi cymryd ei le wrth y bwrdd gyda hwy, cymerodd y bara a bendithio, a'i dorri a'i roi iddynt.

<sup>31</sup> Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef. A diflannodd ef o'u golwg.

<sup>32</sup> Meddent wrth ei gilydd, "Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrhythurau inni?"

<sup>33</sup> Codasant ar unwaith a dychwelyd i Jerwsalem. Cawsant yr un ar ddeg a'u dilynwyr wedi ymgynnull ynghyd

<sup>34</sup> ac yn dweud fod yr Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi, ac wedi ymddangos i Simon.

<sup>35</sup> Adroddasant hwythau yr hanes am eu taith, ac fel yr oeddent wedi ei adnabod ef ar doriad y bara.

### **Ioan 5: 24-29 and 6: 37-40; Gweld y Mab ac a chredu ynddo**

<sup>24</sup> Dywedodd Iesu, "Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich fod y sawl sy'n gwranddo ar fy ngair i ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i yn meddu ar fywyd tragwyddol. Nid yw'n dod dan gondemniad; i'r gwrthwyneb, y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd. <sup>25</sup> Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab Duw, a'r rhai sy'n clywed yn cael bywyd. <sup>26</sup> Oherwydd fel y mae gan y Tad fywyd ynddo ef ei hun, <sup>27</sup> felly hefyd awdurdod i weinyddu barn, am mai Mab y Dyn yw ef. <sup>28</sup> Peidiwch â rhyfeddu at hyn, oherwydd y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; <sup>29</sup> bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a'r rhai

a wnaeth ddrygioni yn codi i farn.”

<sup>37</sup> “Bydd pob un y mae’r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo’r sawl sy’n dod ataf fi. <sup>38</sup> Oherwydd yr wyf wedi disgyn o’r nef nid i wneud fy ewyllys fy hun ond ewyllys yr hwn a’m anfonodd. <sup>39</sup> Ac ewyllys yr hwn a’m hanfonodd i yw hyn: nad wyf i golli neb o’r rhai y mae ef wedi eu rhoi i mi, ond fy mod i’w hatgyfodi yn y dydd olaf. <sup>40</sup> Oherwydd ewyllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy’n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol. A byddaf fi’n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf.”

**Ioan 6: 53-58; *Caiff yr hwn sy’n bwyta’r bara hwn fyw am byth***

<sup>53</sup> Dywedodd Iesu, “Yn wir, yn wir, ’rwy’n dweud wrthyhych, oni fwyteuach gnawd Mab y Dyn ac yfed ei waed, ni bydd gennych fywyd ynoch. <sup>54</sup> Y mae gan yr hwn sy’n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i fywyd tragwyddol yn ei feddiant, a byddaf fi’n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf. <sup>55</sup> Oherwydd fy nghnawd i yw’r gwir fwyd, a’m gwaed i yw’r wir ddiod. <sup>56</sup> Y mae’r hwn sy’n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau. <sup>57</sup> Y Tad byw a’m hanfonodd i, ac yr wyf fi’n byw oherywdd y Tad; felly’n union bydd hwnnw sy’n fy mwyta i yn byw o’m herwydd innau. <sup>58</sup> Dyma’r bara a ddisgynnodd o’r nef. Nid yw hwn fel y bara a fwytaodd y tadau; buont hwy farw. Caiff yr hwn sy’n bwyta’r bara hwn fyw am byth.”

**\*Ioan 10: 11-16; *Myfi yw’r bugail da***

<sup>11</sup> Myfi yw’r bugail da. Y mae’r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid.

<sup>12</sup> Y mae’r gwas cyflog, nad yw’n fugail nac yn berchen y defaid, yn gweld y blaidd yn dod ac yn gadael y defaid ac yn ffoi; ac y mae’r blaidd yn eu hysglyfio ac yn eu gyrru ar chwâl.

<sup>13</sup> Y mae’n ffoi am mai gwas cyflog yw, ac am nad oes ofal arno am y defaid.

<sup>14</sup> Myfi yw’r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a’m defaid yn f’adnabod i,

<sup>15</sup> yn union fel y mae’r Tad yn f’adnabod i, a minnau’n adnabod y Tad. Ac yr wyf yn rhoi fy einioes dros y defaid.

<sup>16</sup> Y mae gennyf ddefaid eraill hefyd, nad ydynt yn perthyn i’r gorlan hon. Rhaid imi ddod â’r rheini i mewn, ac fe wrandawant ar fy llais. Yna bydd un praidd ac un bugail.

**Ioan 11: 21-27; *Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd***

<sup>21</sup> Dywedodd Martha wrth Iesu, “Be buasit ti yma, Syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. <sup>22</sup> A hyd yn oed nawr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo.” <sup>23</sup> Dywedodd Iesu wrthi, “Fe atgyfoda dy frawd.” <sup>24</sup> “Mi wn”, meddai Martha wrtho, “y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf.” <sup>25</sup> Dywedodd Iesu wrthi, “Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd. Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo

farw, fe fydd byw, <sup>26</sup> a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?" <sup>27</sup> "Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

**Ioan 14: 1-6, 18, 19; Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd**

<sup>1</sup> "Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau.

<sup>2</sup> Yn nhfl fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthy'ch fy mod yn mynd I baratoi lle i chwi?

<sup>3</sup> Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

<sup>4</sup> Fe wyddoch y ffordd i'r lle'r wyf fi'n mynd."

<sup>5</sup> Meddai Thomas wrtho, "Arglwydd, ni wyddom i ble'r wyt yn mynd. Sut y gallwn wybod y ffordd?"

<sup>6</sup> Dywedodd Iesu wrtho, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.

<sup>18</sup> Ni adawaf chwi'n amddifad; fe ddof yn ôl atoch chwi.

<sup>19</sup> Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chwi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chwithau hefyd.

**Ioan 20: 1-9, (10-18); Y Crist Atgyfodedig**

<sup>1</sup> Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, yn fore, tra oedd hi eto'n dywyll, dyma Mair Magdalen yn dod at y bedd, ac yn gweld bod y maen wedi ei dynnu oddi wrth y bedd.

<sup>2</sup> Rhedodd, felly, nes dod at Simon Pedr a'r disgybl arall, yr un yr oedd Iesu'n ei garu. Ac meddai wrthynt, "Y maent wedi cymryd yr Arglwydd allan o'r bedd, ac ni wyddom

lle y maent wedi ei roi i orwedd."

<sup>3</sup> Yna cychwynnodd Pedr a'r disgybl arall allan, a mynd at y bedd.

<sup>4</sup> Yr oedd y ddau'n cydreddeg, ond rhedodd y disgybl arall ymlaen yn gynt na Pedr, a chyrraedd y bedd yn gyntaf.

<sup>5</sup> Plygodd i edrych, a gwelodd y llieiniau yn gorwedd yno, ond nid aeth i mewn.

<sup>6</sup> Yna daeth Simon Pedr ar ei ôl, a mynd i mewn i'r bedd. Gwelodd y llieiniau yn gorwedd yno,

<sup>7</sup> a hefyd y cadach oedd wedi bod am ei ben ef; nid oedd hwn yn gorwedd gyda'r llieiniau, ond ar wahân, wedi ei blygu ynghyd.

<sup>8</sup> Yna aeth y disgybl arall, y cyntaf i ddod at y bedd, yntau i mewn. Gwelodd, ac fe gredodd.

<sup>9</sup> Oherwydd nid oeddent eto wedi deall yr hyn a ddywed yr Ysgrythur, fod yn rhaid iddo atgyfodi oddi wrth y meirw.

(<sup>10</sup> Yna aeth y disgyblion yn ôl adref.

<sup>11</sup> Ond yr oedd Mair yn dal i sefyll y tu allan i'r bedd, yn wylo. Wrth iddi wylo felly, plygodd i edrych i mewn i'r bedd,



<sup>12</sup> a gwelodd ddau angel mewn dillad gwyn yn eistedd lle'r oedd corff Iesu wedi bod yn gorwedd, un wrth y pen a'r llall wrth y traed.

<sup>13</sup> Ac meddai'r rhain wrthi, "Wraig, pam yr wyt ti'n wylo?" Atebodd hwy, "Y maent wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd, ac ni wn i lle y maent wedi ei roi i orwedd."

<sup>14</sup> Wedi iddi ddweud hyn, troes yn ei hôl, a gwelodd Iesu yn sefyll yno, ond heb sylweddoli mai Iesu ydoedd.

<sup>15</sup> "Wraig," meddai Iesu wrthi, "pam yr wyt ti'n wylo? Pwy yr wyt yn ei geisio?" Gan feddwl mai'r garddwr ydoedd, dywedodd hithau wrtho, "Os mai ti, syr, a'i cymerodd ef, dywed wrthyf lle y rhoddaist ef i orwedd, ac fe'i cymeraf fi ef i'm gofal."

<sup>16</sup> Meddai Iesu wrthi, "Mair." Troes hithau, ac meddai wrtho yn iaith yr Iddewon, "Rabbwni" (hynny yw, Athro).

<sup>17</sup> Meddai Iesu wrthi, "Paid â glynu wrthyf, oherwydd nid wyf eto wedi esgyn at y Tad. Ond dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, 'Yr wyf yn esgyn at fy Nhad i a'ch Tad chwi, fy Nuw i a'ch Duw chwi.'"

<sup>18</sup> Ac aeth Mair Magdalen i gyhoeddi'r newydd i'r disgyblion. "Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd," meddai, ac eglurodd ei fod wedi dweud y geiriau hyn wrthi.

<sup>19</sup> Gyda'r nos ar y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, yr oedd y drysau wedi eu cloi lle'r oedd y disgyblion, oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon. A dyma Iesu'n dod ac yn sefyll yn e canol, ac yn dweud wrthynt, "Tangnefedd i chwi!"

### **Rhufeiniaid 8. 31-39:** *Bydd dim byd yn ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist*

<sup>31</sup> Os yw Duw trosom, pwy sydd i'n herbyn? <sup>32</sup> Ni arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef? <sup>33</sup> Pwy sydd i ddwyn cyhuddiad yn erbyn etholedigion Duw? <sup>34</sup> Ai Duw, ac yntau'r un a fu farw, yn hytrach, a gyfodwyd, yr un sydd a ddeheulaw Duw, yr un sydd yn ymbil trosom. <sup>35</sup> Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl neu gleddyf? <sup>36</sup> Hyn yn wir yw ein rhan, fel y mae'n ysgrifenedig, "Er dy fwyn di, fe'n rhoddir i farwolaeth ar hyd y dydd, fe'n cyfrifir fel defaid i'w lladd." <sup>37</sup> Ond yn y pethau hyn i gyd yr ydym yn ennill buddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. <sup>38</sup> Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angyllion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymsterau <sup>39</sup> nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

### **Rhufeiniaid 14: 7-9, (10-13, 16, 17);** *Arglwydd y Meirw a'r Byw*

<sup>7</sup> Oherwydd nid oes neb ohonom yn byw iddo'i hun, na neb yn marw iddo'i hun.

<sup>8</sup> Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym.

<sup>9</sup> Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

(10 Pam yr wyt ti yn barnu dy frawd? A thithau, pam yr wyt yn bychanu dy frawd?)

Oherwydd bydd rhaid inni bob un sefyll gerbron brawdle Duw.

<sup>11</sup> Fel y mae'n ysgrifenedig: "Cyn wired â'm bod i yn fyw, medd yr Arglwydd, i mi y bydd pob glin yn plygu, a phob tafod yn moliannu Duw."

<sup>12</sup> Am hynny, bydd rhaid i bob un ohonom roi cyfrif amdano ef ei hun i Dduw.

<sup>13</sup> Felly, peidiwn mwyach â barnu ein gilydd. Yn hytrach, dyfarnwch nad oes neb i roi achlysur i frawd gwympo neu faglu.

<sup>14</sup> Peidiwch â gadael i'r peth sy'n dda yn eich golwg gael gair drwg.

<sup>17</sup> Nid bwyta ac yfed yw teyrnas Dduw, ond cyfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.)

### **1 Corinthiaid 15: 3-20; Tyst o'r Crist Atgyfodedig**

<sup>3</sup> Yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pech-dau ni, yn ôl yr Ysgrifurau ac iddo ymddangos i Cephas [Pedr], ac yna i'r deuddeg. <sup>6</sup> Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'r brodyr ar unwaith - ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er fod rhai wedi huno. <sup>7</sup> Yna, ymddangosodd i lago, yna i'r holl apostolion. <sup>8</sup> Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minau hefyd. <sup>9</sup> Oherwydd y lleiaf o'r apostolion wyf fi, un nad wyf deilwng i'm galw yn apostol, gan i mi erlid eglwys Duw. <sup>10</sup> Ond trwy ras Duw yr wyf yr hyn ydwyf, ac ni bu ei ras ef tuag ataf yn ofer. Yn wir, mi lafuriais yn helaethach na hwy i gyd - eto nid myfi, ond gras Duw, oedd gyda mi. <sup>11</sup> Ond prun bynnag ai myfi ai hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwithau.

<sup>12</sup> Yn awr, os pregethir Crist, ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw? <sup>13</sup> Os nad oes atgyfodiad y meirw, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith; <sup>14</sup> ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi. <sup>15</sup> Ceir ein bod yn dystion twyllodrus i Dduw, am ein bod wedi tystiolaethu iddo gyfodi Crist - ac yntau heb wneud hynny, os yw'n wir nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi.

<sup>16</sup> Oherwydd os nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith. <sup>17</sup> Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd. <sup>18</sup> Y mae'n dilyn hefyd fod y rhai a hunodd yng Nghrist wedi darfod amdanynt. <sup>19</sup> Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, ny ni yw'r mwyaf truenus ymhliht dynion. <sup>20</sup> Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno. .

### **1 Corinthiaid 15: 20-26, 35-38, (39-41), 42-58; Angau, lle mae dy fuddugoliaeth?**

<sup>20</sup> Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno. <sup>21</sup> Gan mai trwy ddyd y daeth marwolaeth, trwy ddyd hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. <sup>22</sup> Oherwydd fel mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. <sup>23</sup> Ond pob un yn ei briod drefn: Crist y blaenffrwyth, ac yna, ar ei ddyfodiad ef, y rhai sy'n eiddo Crist. <sup>24</sup> Yna daw'r diwedd, pan fydd Crist yn traddodi'r deyrnas i Dduw'r Tad, ar ôl iddo ddileu pob tywysogaeth, a phob awdurdod a gallu. <sup>25</sup> Oherwydd y mae'n rhaid iddo ef ddal i ddeyrnasu nes iddo osod pob gelyn dan ei draed. <sup>26</sup> Y gelyn olaf a ddileir yw angau.

<sup>35</sup> Ond bydd rhywun yn dweud, “Pa fodd y mae’r meirw yn cael eu cyfodi? A pha fath gorff y byddant yn dod?” <sup>36</sup> Ddyn ynfyd, beth am yr had yr wyt yn ei hau? Ni roddir bywyd iddo heb iddo farw yn gyntaf. <sup>37</sup> A’r hyn yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd ydyw, ond gronyn noeth, o wenith efallai, neu o rywrawn arall. <sup>38</sup> Ond Duw, yn ei ewyllys ei hun, sydd yn rhoi corff iddo, i bob un o’r hadau ei gorff ei hun.

[<sup>39</sup> Oherwydd nid yr un cnawd yw pob cnawd, ond un peth yw cnawd dynion, peth arall yw cnawd anifeiliaid, peth arall yw cnawd adar, a pheth arall yw cnawd pysgod. <sup>40</sup> Y mae hefyd gyrrff nefol a chyrrff daearol, ond un peth yw gogoniant y rhai nefol, a pheth gwahanol yw gogoniant y rhai daearol. <sup>41</sup> Un peth yw gogoniant yr haul, a pheth arall yw gogoniant y lloer, a pheth arall yw gogoniant y sêr; yn wir, y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.]

<sup>42</sup> Felly hefyd y bydd, gyda golwg ar atgyfodiad y meirw. Heuir mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. <sup>43</sup> Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. <sup>44</sup> Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef. Os oes corff anianol, y mae hefyd gorff ysbrydol.

<sup>45</sup> Felly, yn wir, y mae’n ysgrifenedig, “Daeth y dyn cyntaf, Adda, yn fod fyw.” Ond daeth yr Adda diwethaf yn ysbryd sydd yn rhoi bywyd. <sup>46</sup> Eithr nid yr ysbrydol sy’n dod gyntaf, ond yr anianol, ac yna’r ysbrydol. <sup>47</sup> Y dyn cyntaf, o’r ddaear y mae, a llwch ydyw; ond yr ail ddyn, o’r nef y mae. <sup>48</sup> Y mae’r rhai sydd o’r llwch yn debyg i’r dyn o’r llwch, ac y mae’r rhai sydd o’r nef yn debyg i’r dyn o’r nef. <sup>49</sup> Ac fel y bu delw’r dyn o’r llwch arnom, felly hefyd y bydd delw’r dyn o’r nef arnom.

<sup>50</sup> Hyn yr wyf yn ei olygu, frodyr: ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac ni all llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth. <sup>51</sup> Clywch, yr wyf yn mynegi dirgelwch i chwi: nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid, mewn eiliad, ar drawiad amrant, ar ganiad yr utgorn diwethaf. <sup>52</sup> Oherwydd bydd yr utgorn yn seinio, y meirw yn cael eu cyfodi yn anllygredig, a ninnau’n cael ein newid. <sup>53</sup> Oherwydd rhaid i’r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i’r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.

<sup>54</sup> A phan fydd y llygradwy hwn wedi gwisgo anllygredigaeth, a’r marwol hwn wedi gwisgo anfarwoldeb, yna bydd y geiriau hyn sydd yn ysgrifenedig yn dod yn wir: “Llyncwyd angau mewn buddugoliaeth,” <sup>55</sup> “O angau, lle mae dy fuddugoliaeth? O angau, lle mae dy golyn?” <sup>56</sup> Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw’r Gyfraith. <sup>57</sup> Ond i Dduw y bo’r diolch, yr hwn sy’n rhoi’r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

<sup>58</sup> Felly, fy mrodyr annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer.

## **2 Corinthiaid 4: 16 - 5: 9; Gogoniant digyffelyb**

<sup>16</sup> Am hynny, nid ydym yn digalonni. Er ein bod o ran y dyn allanol yn dadfeilio, o ran y dyn mewnol fe’n hadnewyddir ddydd ar ôl dydd.

<sup>17</sup> Oherwydd y baich ysgafn o orthrymder sydd arnom yn awr, darparu y mae, y

tu hwnt i bob mesur, bwysau tragwyddol o ogoniant i ni,

<sup>18</sup> dim ond inni gadw'n golwg, nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau na welir. Dros amser y mae'r pethau a welir, ond y mae'r pethau na welir yn dragwyddol.

<sup>1</sup> Gwyddom, os tynnir i lawr y babell ddaearol hon yr ydym yn byw ynddi, fod gennynt ym deilad oddi wrth Dduw, tfl nad yw o waith llaw, sydd yn dragwyddol yn y nefoedd.

<sup>2</sup> Yma yn wir yr ydym yn ochneidio yn ein hiraeth am gael ein harwisgo â'r corff o'r nef sydd i fod yn gartref inni;

<sup>3</sup> o'n gwisgo felly, ni cheir mohonom yn noeth.

<sup>4</sup> Oherwydd yr ydym ni sydd yn y babell hon yn ochneidio dan ein baich; nid ein bod am ymddiosg ond yn hytrach ein harwisgo, er mwyn i'r hyn sydd farwol gael ei lyncu gan fywyd.

<sup>5</sup> Duw yn wir a'n darparodd ni ar gyfer hyn yma, ac ef sydd wedi rhoi yr Ysbryd inni yn ernes.

<sup>6</sup> Am hynny, yr ydym bob amser yn llawn hyder. Gwyddom, tra byddwn yn cartrefu yn y corff, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd;

<sup>7</sup> oherwydd yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, nid yn ôl golwg.

<sup>8</sup> Yr ydym yn llawn hyder, meddaf, a gwell gennynt fyddai bod oddi cartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd.

<sup>9</sup> Y mae ein bryd, felly, gartref neu oddi cartref, ar fod yn gymeradwy ganddo ef.

### **Philipiad 3: 7-11, (12-21); *Grym atgyfodiad Crist (Dinasyddion y Nef)***

<sup>7</sup> Ond beth bynnag oedd yn ennill i mi, yr wyf, er mwyn Crist, wedi ei gyfrif yn golled.

<sup>8</sup> A mwy na hynny hyd yn oed, yr wyf yn dal i gyfrif pob peth yn golled, ar bwys rhagoriaeth y profiad o adnabod Crist Iesu fy Arglwydd, yr un y collais bob peth er ei fwyn. Yr wyf yn cyfrif y cwbl yn ysbwriel, er mwyn imi ennill Crist

<sup>9</sup> a'm cael ynddo ef, heb ddim cyfiawnder o'm heiddo fy hun yn seiliedig ar y Gyfraith, ond hwnnw sydd trwy ffydd yng Nghrist, y cyfiawnder sydd o Dduw ar sail ffydd.

<sup>10</sup> Fy nod yw ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddiodeffidadau, wrth gael fy nghydfurfio â'l farwolaeth ef,

<sup>11</sup> er mwyn i mi, os yw'n bosibl, gyrraedd yr atgyfodiad oddi wrth y meirw.

<sup>12</sup> Nid fy mod eisoes wedi cael hyn, neu fy mod eisoes yn berffaith, ond yr wyf yn prysuro ymlaen, er mwyn meddiannu'r peth hwnnw y cefais innau er ei fwyn fy meddiannu gan Grist Iesu.

<sup>13</sup> Frodyr, nid wyf yn ystyried fy mod wedi ei feddiannu; ond un peth, gan anghofio'r hyn sydd o'r tu cefn ac ymestyn yn daer at yr hyn sydd o'r tu blaen,

<sup>14</sup> yr wyf yn cyflymu at y nod, i ennill y wobr y mae Duw yn fy ngalw i fyny ati yng Nghrist Iesu.

<sup>15</sup> Pob un ohonom, felly, sydd o nifer y rhai aeddfed, dyma sut y dylai feddwl. Ond os ydych o wahanol feddwl am rywbeth, fe ddatguddia Duw hyn hefyd ichwi.

<sup>16</sup> Ond gadewch inni ymddwyn yn unol â'r safon yr ydym wedi ei chyrraedd.

<sup>17</sup> Byddwch yn gydefelychwyr ohonof fi, frodyr, a daliwch sylw ar y rhai sy'n byw yn ôl yr esiampl sydd gennych ynom ni.

<sup>18</sup> Oherwydd y mae llawer, yr wyf yn fynych wedi sôn wrthy ch amdanynt, ac yr wyf yn sôn eto yn awr gan wlo, sydd o ran eu ffordd o fyw yn elynion croes Crist.

<sup>19</sup> Distryw yw eu diwedd, chwant yw eu duw, ac yn eu cywilydd y mae eu gogoniant; dynion â'u bryd ar bethau daearol ydynt.

<sup>20</sup> Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwarddwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist.

<sup>21</sup> Bydd ef yn gweddnwid ein corff darostyngedig ni ac yn ei wneud yn unfurf â'i gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sydd yn ei alluogi i ddwyn pob peth dan ei awdurdod.

## **2 Timotheus 2: 8-13; Cawn fyw gyda Crist**

<sup>8</sup> Cofia Iesu Grist: ei gyfodi oddi wrth y meirw, ei eni o linach Dafydd, yn ôl yr Efengyl yr wyf fi yn ei phregethu.

<sup>9</sup> Yng ngwasanaeth yr Efengyl hon yr wyf yn dioddef hyd at garchar, fel rhyw droseddwr, ond nid oes carchar i ddal gair Duw.

<sup>10</sup> Felly, yr wyf yn goddef y cyfan er mwyn ei etholedigion, iddynt hwythau hefyd gael yr iachawdwriaeth sydd yng Nghrist Iesu, ynghyd â gogoniant tragwyddol.

<sup>11</sup> Dyma air i'w gredu: "Os buom farw gydag ef, byddwn fyw hefyd gydag ef;

<sup>12</sup> os dioddefwn, cawn deyrnasu hefyd gydag ef; os gwadwn ef, bydd ef hefyd yn ein gwadu ninnau;

<sup>13</sup> os ydym yn anffyddlon, y mae ef yn aros yn ffyddlon, oherwydd ni all ef ei wadu ei hun."

## **\*1 Pedr 1: 3-9; Gobaith bywiol**

<sup>3</sup> Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,

<sup>4</sup> i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa. Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi,

<sup>5</sup> chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw hyd nes y daw iachawdwriaeth, yr iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser diwethaf.

<sup>6</sup> Yn wyneb hyn yr ydych yn gorfoleddu, er eich bod, fe ddichon, newydd brofi blinder dros dro dan amrywiol brofedigaethau.

<sup>7</sup> Y mae hyn wedi digwydd er mwyn i ddilysrwydd eich ffydd chwi, sy'n fwy gwerthfawr na'r aur sy'n darfod - ac y mae hwnnw'n cael ei brofi trwy dân - gael ei amlygu er mawl a gogoniant ac anrhydedd yn Nydd datguddio Iesu Grist.

<sup>8</sup> Yr ydych yn ei garu ef, er na welsoch mohono; ac am eich bod yn awr yn credu ynddo heb ei weld, yr ydych yn gorfoleddu â llawenydd anhraethadwy a gogoneddus

<sup>9</sup> wrth ichwi ennill diben eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau.

### **\*1 Ioan 3: 1,2; Plant Duw**

<sup>1</sup> Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom: cawsom ein galw yn blant Duw, a dyna ydym. Y rheswm nad yw'r byd yn ein hadnabod ni yw nad oedd yn ei adnabod ef.

<sup>2</sup> Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan amlygir hynny, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

### **\*1 Ioan 4: 7-18a; Cariad yw Duw**

<sup>7</sup> Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw.

<sup>8</sup> Yr hwn nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw.

<sup>9</sup> Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef.

<sup>10</sup> Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau.

<sup>11</sup> Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd.

<sup>12</sup> Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; os ydym yn caru ein gilydd, y mae Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni.

<sup>13</sup> Dyma sut yr ydym yn gwybod ein bod yn aros ynddo ef, ac ef ynom ninnau: am iddo ef roi inni o'i Ysbryd.

<sup>14</sup> Yr ydym ni wedi gweld, ac yr ydym yn tystiolaethu bod y Tad wedi anfon ei Fab yn Waredwr y byd.

<sup>15</sup> Pwy bynnag sy'n cyffesu bod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw.

<sup>16</sup> Felly yr ydym ni wedi dod i adnabod a chredu'r cariad sydd gan Dduw tuag atom.

<sup>17</sup> Yn hyn y mae cariad wedi cael ei berffeithio ynom: bod gennym hyder yn Nydd y Farn, oherwydd fel y mae ef, felly yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.

<sup>18</sup> Nid oes ofn mewn cariad, ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn; y mae a wnelo ofn â chosb, ac nid yw'r hwn sy'n ofni wedi ei berffeithio mewn cariad.

### **Datguddiad 7: 9-17; Bydd Duw yn sychu pob deigrun**

<sup>9</sup> Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo.

<sup>10</sup> Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel: "Buddugoliaeth i'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen!"

<sup>11</sup> Yr oedd yr holl angylion yn sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw, a syrthiasant ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw

<sup>12</sup> gan ddweud: “Amen. I’n Duw ni y bo’r mawl a’r gogoniant a’r doethineb a’r diolch a’r anrhydedd a’r gallu a’r nerth byth bythoedd! Amen.”

<sup>13</sup> Gofynnodd un o’r henuriaid imi, “Y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, pwy ydynt ac o ble y daethant?”

<sup>14</sup> Dywedais wrtho, “Ti sy’n gwybod, f’arglwydd.” Meddai yntau wrthyf, “Dyma’r rhai sy’n dod allan o’r gorthrymder mawr; y maent wedi golchi eu mentyll a’u cannu yng ngwaed yr Oen.

<sup>15</sup> Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml, a bydd yr hwn sy’n eistedd ar yr orsedd yn preswyllo gyda hwy.

<sup>16</sup> Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy, ni ddaw ar eu gwarthaf na’r haul na dim gwres,

<sup>17</sup> oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr Orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o’u llygaid hwy.”

### **Datguddiad 20: 11-13; *Llyfr bywyd***

<sup>11</sup> Gwelais orsedd fawr wen a’r Un oedd yn eistedd arni, hwnnw y ffoesai’r ddaear a’r nef o’i ŷydd a gadael eu lle yn wag.

<sup>12</sup> Gwelais y meirw, y rhai mawr a’r rhai bach, yn sefyll o flaen yr orsedd; ac agorwyd llyfrau. Yna agorwyd llyfr arall, sef llyfr y bywyd; a barnwyd y meirw ar sail yr hyn oedd yn ysgrifenedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithredoedd.

<sup>13</sup> Ildiodd y môr y meirw oedd ynddo, ac ildiodd Marwolaeth a Thrigfan y Meirw y rhai oedd ynddynt hwy, ac fe’u barnwyd, pob un yn ôl ei weithredoedd.

### **\*Datguddiad 21: 1-7; *Y Jerwsalem newydd***

<sup>1</sup> Yna gwelais nef newydd a daear newydd; oherwydd yr oedd y nef gyntaf a’r ddaear gyntaf wedi mynd heibio, ac nid oedd môr mwyach.

<sup>2</sup> A gwelais y ddinas sanctaidd, Jerwsalem newydd, yn disgyn o’r nef oddi wrth Dduw, wedi ei pharatoi fel priodferch wedi ei thec u i’w gŵr.

<sup>3</sup> Clywais lais uchel o’r orsedd yn dweud, “Wele, y mae preswylfa Duw gyda dynion; bydd ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt.

<sup>4</sup> Fe sych bob deigryn o’u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen. Y mae’r pethau cyntaf wedi mynd heibio.”

<sup>5</sup> Yna dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd, “Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.” Dywedodd hefyd, “Ysgrifenna, oherwydd dyma eiriau ffyddlon a gwir.”

<sup>6</sup> A dywedodd wrthyf, “Y mae’r cwbl ar ben. Myfi yw Alfa ac Omega, y dechrau a’r diwedd. Rhoddaf fi i’r sychedig ddiod yn rhad o ffynnon dŵr y bywyd.

<sup>7</sup> Yr hwn sy’n gorchfygu, caiff etifeddu’r pethau hyn; byddaf yn Dduw iddo, a bydd yntau’n fab i mi.





